

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR A GYNHALIWDYD AR NOS
LUN 28AIN O HYDREF 2019 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 P.M.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Geraint Jones, Arwel Davies a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwr Philip Williams, Bari Evans, Stan Williams, Hywel Davies, Iwan Jones, Falmai Evans a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Cyngorydd Elfed Williams i'r eitem 8A isod.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 30ain o Fedi 2019 harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae'r Swyddogion Adran priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i mewn i'r materion y ffyrdd a adroddwyd gan y Cyngor Cymuned dros y misoedd diweddar.

B. Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngorydd Elfed Williams fod yna "Pwyllgor Cyhoeddus" wedi ei threfnu ar gyfer nos Lun 11eg o Dachwedd 2019 yn y Ffestri Capel, Llanrhaeadr i drafod y cronfeydd arian Ffermydd Wynt Brenig a Choedwigaeth Clocaenog.

5. SEDD WAG Y CYNGOR.

Derbyniwyd un cais i lenwi'r sedd wag y Cyngor, Sef Mrs Ceri Davies, Meifod, Saron. Penderfynwyd yr aelodau i ofyn am fwy o wybodaeth oddi wrth Mrs Davies ynglŷn â'i chefnidir ar reswm am ymgeisio am y sedd wag.

6. WEFAN Y CYNGOR.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gysylltu â Hannah Gwenllïan o'r Cwmni H G Web Design o Bala ynglŷn â'r adnewyddu'r Wefan y Cyngor.

7. CYLLID.

A. Datganiad Banc £15,862.60.

B. Cwmni Harold Smith am ffi Archwiliwr Mewnol y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2019 - £180.00.

8. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

A. Planning Application: 23/2019/0818 - felling of 8 number trees on the east boundary to facilitate the repair and rebuilding of an existing stone wall at St. Dyfnog's Well Woodland, Llanrhaeadr.

B. Planning Application: 23/2019/0841 - Demolition of existing buildings and erection of an agricultural implement and fodder store at Brŷn Alwen, Llanrhaeadr.

9. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd hysbyseb o'r apêl i'r Arolygaeth Cynllunio ynglŷn ar gais cynllunio a chafwyd ei wrthod i'r lleoliad Carafán i fyw ynddo yn "Y Paddock", Cae'r Mynydd, Saron.

B. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Darren Millar, Aelod y Cynulliad dros Orllewin Clwyd, i fynychu cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Llanrhaeadr. Penderfynwyd derbyn y gwahoddiad.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

10. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

A: Dwr yn cynyddu ar y ffordd rhwng Bwlch, Prion a Tan-yr-Allt, Peniel.

B. Dwr yn cynyddu ar draws y ffordd i'r Lodge yn Llanrhaeadr.

C. Llwybr troed mwdlyd wrth Maes Hwylfa yn Llanrhaeadr.

11. MATERION NRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH
LEOL 1972.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Cyngor cefnogi "Pwyllgor Prosiect Ffynnon Dyfnog yn Llanrhaeadr" am gais i'r Gronfa Felinau Wynt Brenig.

12. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 25ain o Dachwedd 2019 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.